

CYNLLUN GAEOF COVID-19: CRYNODEB

Crynodeb yw hwn o **Gynllun Gaef COVID-19 y Llywodraeth**.

Gellir gweld y fersiwn lawn - sy'n nodi ein rhaglen ar gyfer atal y feirws, diogelu'r GIG a'r rhai bregus, cadw addysg a'r economi i fynd a chynnig llwybr yn ôl at normalrwydd - yma:

AMCANION Y LLYWODRAETH

1. Bydd strategaeth y Llywodraeth yn cael ei harwain gan dri amcan:
 - a. Rheoli lledaeniad yr heintiad.
 - b. Dod o hyd i ffyrdd newydd a mwy effeithiol o reoli'r feirws a galluogi bywyd i ddychwelyd i fod yn nes at fywyd normal.
 - c. Cadw'r difrod i'r economi a'r gymdeithas, swyddi a bywoliaeth pobl cyn lleied â phosibl. A sicrhau bod addysg yn cael ei diogelu mewn meithrinfeydd, ysgolion, colegau a phrifysgolion.

Y LLWYBR YN ÔL AT NORMALRWYDD

2. Yn ystod y misoedd nesaf bydd y Llywodraeth yn gallu dibynnu llai ar gyfyngiadau economaidd a chymdeithasol a mwy ar atebion sy'n cael eu cynnig gan ddatblygiadau gwyddonol.
3. **Mae brechlynnau yn ganolog i gynllun y Llywodraeth i sicrhau y gall bywyd ddychwelyd i fod mor normal â phosibl.** Cyhoeddodd y Llywodraeth gytundebau gyda saith o wahanol ddatblygwyr brechlynnau, gan sicrhau mynediad at fwy na 350 miliwn dos fydd ar gael ar draws y Deyrnas Unedig. Mis nesaf bydd y Llywodraeth yn barod i raglen frechu trwy'r Deyrnas Unedig ddechrau, ar yr amod bod y rheoleiddwyr yn cymeradwyo'r brechlynnau.
4. Diogelwch y cyhoedd fydd yn dod yn gyntaf bob amser. Dim ond os bydd wedi bodloni safonau cadarn o ran diogelwch, effeithiolrwydd ac ansawdd trwy dreialon clinigol y bydd brechlyn COVID-19 yn cael ei gymeradwyo.
5. **Bydd triniaethau effeithiol ar gyfer COVID-19 yn parhau i fod yn hanfodol i reoli'r feirws hyd yn oed wrth i frechlynnau gael eu cyflwyno yn y Deyrnas Unedig ac yn fyd-eang,** gan gynnwys y rhai na ellir eu brechu, oherwydd bod eu system imiwneidd wedi ei heffeithio, er enghraifft. Bydd dod o hyd i driniaethau effeithiol yn lleihau'r risg i fywydau a salwch difrifol i bobl sy'n cael y feirws ac yn ein cefnogi i ddychwelyd i fyw bywyd normal.
6. Bydd rhaglen **brofi gymunedol** wedi ei chryfhau yn gadael i ni ddynodi ac ynysu pobl nad oes ganddynt symptomau ond sydd yn lledaenu'r feirws yn anfwriadol. Yn ychwanegol, bydd y Llywodraeth hefyd yn cyflwyno profion cyflym, cyson yn genedlaethol i staff rheng flaen GIG, gofal cymdeithasol a lleoliadau risg uchel neu gritigol eraill.
7. Mae'r gallu i brofi ar gyfer y rhai sydd â symptomau COVID-19 wedi cynyddu bron bum gwaith mewn chwe mis, o 100,000 y dydd ar ddiwedd Ebrill i 500,000 y dydd erbyn diwedd Hydref, gyda chynlluniau i fynd hyd yn oed ymhellach erbyn diwedd y

flwyddyn. **Mae hyn ar gael i ddinasyddion ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig.** Mae'r Llywodraeth yn gweithio i wella'r amser dychwelyd canlyniadau ar gyfer y profion hyn er gwaethaf y cynnydd yng ngraddfa a chymhlethdod logistig y rhwydwaith sydd wedi ei ehangu.

RHEOLI'R FEIRWS

8. Mae'r datblygiadau gwyddonol a ddisgrifir uchod yn cynnig y llwybr yn ôl at normalrwydd a dylai leihau'r angen am gyfyngiadau economaidd a chymdeithasol yn y gwanwyn. Ond nes bydd y rhain ar waith, rhaid i'r Llywodraeth barhau i ddefnyddio offer eraill i reoli'r feirws.

DULL WEDI EI DARGEDU YN LLOEGR

9. Mae Cynllun Gaeaf COVID-19 hefyd yn nodi sut y byddwn yn **codi cyfyngiadau cenedlaethol yn Lloegr ar 2 Rhagfyr**. Mae hyn yn bosibl oherwydd bod ymdrechion pawb yn ystod y cyfyngiadau presennol yn Lloegr wedi arafu lledaeniad y feirws a lleihau'r pwysau ar y GIG.
10. **Ar 2 Rhagfyr, ar draws Lloegr, pa bynnag haen:**
 - a. Bydd y gofyn i aros gartref yn dod i ben, gyda theithio yn cael ei ganiatáu eto yn amodol ar gyfarwyddyd ym mhob haen.
 - b. Bydd siopau, gofal personol, campfeydd a'r sector hamdden ehangach yn ailagor.
 - c. Gall addoli ar y cyd, priodasau a chwaraeon tu allan ailgychwyn.
 - d. Ni fydd pobl bellach yn cael eu cyfyngu i weld dim ond un unigolyn mewn mannau agored y tu allan - bydd y rheol 6 yn weithredol y tu allan yn awr fel yr oedd yn y set flaenorol o haenau.
11. **Ond mae'r feirws yn dal yn bresennol ac os na fyddwn ni'n ofalus gallai fynd allan o reolaeth yn gyflym eto cyn y gall y brechlynnau a'r profi cymunedol gael effaith.** Byddai hynny'n peryglu'r cynnydd y mae'r wlad wedi ei wneud ac yn rhoi pwysau annioddefol ar y GIG gan wasgu cleifion nad ydynt yn dioddef o Covid allan a'u hatal rhag cael llawdriniaethau hanfodol.
12. **Dyna pam, ar 2 Rhagfyr, y bydd Lloegr yn symud yn ôl i ddull rhanbarthol, haenog** – oherwydd ei bod yn iawn i dargedu'r camau mwyaf caeth ar yr ardaloedd lle'r ydym yn gweld y gyfradd uchaf o heintiadau.
13. **Cyflwynir camau cryfach ym mhob haen i gadw'r feirws dan reolaeth:**
 - a. Yn haen 1, bydd y Llywodraeth yn atgyfnerthu pwysigrwydd gweithio o gartref pryd bynnag y mae'n bosibl.
 - b. Yn haen 2, rhaid i dafarnau a bariâu gau, oni bai eu bod yn gweithredu fel bwytai, a dim ond gyda phrydau sylweddol y gall lleoliadau lletygarwch weini alcohol.
 - c. Yn haen 3, bydd pob sefydliad lletygarwch yn cau ac eithrio ar gyfer dosbarthu, prydau i fynd a gyrru heibio; rhaid i westai a darparwyr llety eraill

gau (ac eithrio eithriadau penodol, gan gynnwys pobl yn aros ar gyfer gwaith neu pan na fyddant yn gallu dychwelyd adref); a rhaid i leoliadau adloniant a lleoliadau twristiaid dan do hefyd gau.

14. Bydd y Llywodraeth hefyd yn mireinio'r haenau blaenorol:

- a. Mae'r amser cau am 10pm ar gyfer lleoliadau lletygarwch wedi ei addasu i archebion olaf am 10pm a chau am 11pm. Bydd hyn yn rhoi cyfle i gwsmeriaid adael yn raddol ac mae'n rhoi mwy o hyblygrwydd.
- b. Yn haen 1 neu 2, gall chwaraeon i wylwyr a digwyddiadau busnes aildechrau dan do a thu allan gyda chyfyngiadau yn ôl maint y dorf a chadw pellter cymdeithasol, gan gynnig mwy o gysondeb gyda pherfformiadau dan do mewn theatrau a neuaddau cyngerdd.
- c. Mae'r Llywodraeth yn ehangu cymhwyster 'swigod cefnogi'. Bydd hyn yn helpu i liniaru effaith y cyfyngiadau ar rieni plant dan flwydd oed (neu dan 5 oed sydd ag anabledd sy'n gwneud gofal parhaus yn angenrheidiol) ac i'r aelwydydd hynny lle mae un oedolyn yn gofalu am rywun ag anabledd difrifol.

15. Cynlluniwyd yr haenau hyn i atal lledaeniad yr haint ac felly cefnogi ardaloedd i symud i lawr trwy'r haenau. Y Llywodraeth fydd yn pennu pa haen y bydd pob ardal yn mynd iddi ar 2 Rhagfyr a sut y bydd ardaloedd yn symud rhwng haenau ar ôl hynny. Bydd hyn yn seiliedig ar ddangosyddion clir o lefel y feirws, cyfradd y cynnydd a gallu'r GIG i ymdopi.

16. Er eu bod yn llai caeth na'r camau cenedlaethol presennol, **mae'r Llywodraeth yn cydnabod pa mor gaeth yw'r camau hyn i bobl a busnesau fydd yn haen 3**, yn arbennig y rhannau hynny o'r wlad sydd wedi bod dan ryw ffurf ar gyfyngiadau ers yr haf. Dyna pam y bydd y Llywodraeth yn cynnig cyfle i Awdurdodau Lleol weithio gyda'i gilydd ar brofi'r gymuned gyfan a phrofion wedi eu targedu yn fwy manwl mewn lleoliadau risg uchel, yn ychwanegol at gynyddu graddfa'r drefn brofi graidd. Pan gaiff hyn ei gyplysu â hunanynysu gan y rhai sy'n cael prawf positif, mae'r ehangiad sylweddol hwn ar y profion yn offeryn newydd hanfodol i helpu ardaloedd symud allan o'r camau mwyaf caeth.

17. Bu'r effaith ar yr economi a bywoliaeth unigolion yn ddifrifol, er gwaethaf y gweithredu gan y Llywodraeth. Dyna pam y mae'r Llywodraeth wedi symud yn gyflym i gefnogi'r economi a diogelu swyddi ar draws y pedair cenedl yn y Deyrnas Unedig gyda'r Cynllun Cadw Swyddi Coronafeirws, Cynllun Cymhorthdal Incwm yr Hunangyflogedig yn ogystal â nifer o gynlluniau cefnogi i fusnesau.

Y NADOLIG A THU HWNT

18. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod y Nadolig yn amser pwysig o'r flwyddyn i lawer o bobl, trwy'r Deyrnas Unedig i gyd. **Beth bynnag yw eich ffydd, mae cyfnod y Nadolig yn amser sy'n cael ei dreulio gyda theulu a ffrindiau yn aml iawn, gydag ysgolion a swyddfeydd yn cau a phobl yn teithio dros wyl y banc.**

19. Bydd y Nadolig yn wahanol eleni, ond byddwn yn sicrhau y bydd pobl yn cael gweld eu hanwyliaid. **Rydym yn cytuno ar ddull cyffredin gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig** yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru am newid i'r cyfyngiadau cymdeithasol gyda chyfyngiad amser dros gyfnod y Nadolig er mwyn i deuluoedd allu dod at ei gilydd o bob rhan o'r Deyrnas Unedig.
20. **Mae'r ffaith ei bod wedi bod yn flwyddyn anodd i bawb yn golygu y bydd amser gyda'n hanwyliaid hyd yn oed yn bwysicach eleni.** Oherwydd hyn bydd y Llywodraeth yn caniatáu rhywfaint yn fwy o gyswllt cymdeithasol i bawb (gyda chefnogaeth cyfarwyddyd ar sut i ddathlu yn ddiogel) dros gyfnod y Nadolig. Dylai pawb sicrhau ei fod yn dilyn y cyfarwyddyd i leihau'r risg ac i ddiogelu eu hanwyliaid, y rhai mwyaf bregus yn neilltuol.
21. **Mae'r Llywodraeth hefyd yn cydnabod yr aberth sylweddol y mae pobl o bob ffydd wedi ei wneud eleni;** bu cyfyngiadau yn eu lle yn ystod nifer o ddathliadau crefyddol neu ddefodau, a diolch i'r aberth yma y mae hi wedi bod yn bosibl rheoli'r feirws. Bydd cyd-addoli yn bosibl yn awr i bob ffydd ym mhob un o'r tair haen a bydd arweinwyr ffydd yn parhau i chwarae rôl allweddol, gan ymgynghori ar sut i wneud arfer crefydd mor ddiogel â phosibl.
22. **Fe fydd risg ymhlyg yn hyn:** Mae COVID-19 yn parhau i fod yn fygythiad gwirioneddol i boblogaeth y Deyrnas Unedig trwy ddiwedd y flwyddyn ac yn 2021. Mae hyn yn golygu na fydd yn bosibl dathlu'r Nadolig yn y "ffordd arferol". Bydd cyfarfod aelwydydd eraill yn cynyddu'r risg o ddal COVID-19 a'i drosglwyddo i eraill. Rhaid i bob un ohonom gymryd cyfrifoldeb personol yn ystod cyfnod y Nadolig i gyfyngu ar ledaeniad y feirws, diogelu ein hanwyliaid ac arfer gofal neilltuol gyda'r rhai bregus. Mae'n hanfodol i ni i gyd gael ein profi pan fydd yn briodol, hunanynysu i ddiogelu eraill, cofio gwerth awyr iach, a dal i ddiogelu ein gilydd gyda Dwylo, Wyneb, Pellter

DAL I ARFER YR YMDDYGIAD CYWIR

23. Y ffordd bwysicaf i atal lledaeniad y feirws yw i ni i gyd ddal i ddilyn yr ymddygiad cywir.
24. Mae hyn yn cynnwys golchi dwylo yn aml am 20 eiliad o leiaf, gwisgo gorchudd wyneb a sicrhau bod digon o awyr iach mewn amgylcheddau caeedig, cadw pellter cymdeithasol a hunanynysu pan amheuir neu y cadarnheir heintiad.
25. Yn sicr mae'r cyhoedd yn y Deyrnas Unedig wedi helpu i leihau lledaeniad y feirws trwy arfer yr ymddygiad yma hyd yn oed pan allan nhw fod wedi achosi caledi cymdeithasol ac economaidd.
26. Bydd yr ymddygiad yma'n parhau'r un mor allweddol trwy'r gaeaf a rhaid i ni gyd ddal ati i chwarae ein rhan.